Hawdd ei Ddeall

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Eich canllaw i'r Gwasanaethau Cymdeithasol

Taflen Ffeithiau Hawdd ei Ddeall 7: Eich amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Llywio Gwasanaethau Cymdeithasol Taflen Ffeithiau 7: Diogelu pobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod**.'

Mawrth 2023

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Mae geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn ei feddwl ar **dudalen 20**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Gwefan: www.comisiynyddph.cymru

Ebost: gofyn@comisiynyddph.cymru

Ffôn: 03442 640 670

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd i'w deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif Trwydded Photosymbols yw 403527247

Cynnwys

Tudalen

Am Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.....4

Eich amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod.....6

Beth ydy Camdriniaeth.....7

Pa fathau o gamdriniaeth sydd yna.....9

Beth sy'n rhaid i'ch Awdurdod Lleol ei wneud.....15

Gorchmynion Amddiffyn a Chefnogi Oedolion.....17

Byrddau Diogelu Oedolion.....18

Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol.....19

Geiriau Anodd.....20

Am Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru** yn gwarchod a hyrwyddo hawliau pobl hŷn ar draws Cymru.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn sicrhau bod pobl hŷn:

- yn gallu rhannu beth maen nhw'n feddwl
- cael dewis a rheolaeth
- peidio â theimlo'n unig
- cael y gefnogaeth a'r gwasanaethau maen nhw eu hangen .
- dim **gwahaniaethu** yn eu herbyn.

Mae **gwahaniaethu** yn meddwl pan fyddwch chi yn cael eich trin yn wael neu'n annheg oherwydd eich oedran, rhyw, hil, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rywiol.

Mae'r **Comisiynydd** a'i thîm yn gweithio i wneud Cymru'n lle da i dyfu'n hŷn ynddo.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640 670

Ebost: gofyn@comisiynyddph.cymru

Gwefan: www.comisiynyddph.cymru

Twitter: @talkolderpeople

Eich amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod

Rhaid i awdurdodau lleol ddiogelu **oedolion sydd mewn perygl**.

Oedolyn sydd mewn perygl o niwed ydy person 18 oed neu'n hŷn, sydd:

- yn profi (neu mewn perygl o brofi) camdriniaeth neu esgeulustod ac
- yn methu amddiffyn eu hunain ac
- mae ganddyn nhw anghenion gofal a chymorth.

Does dim ots os ydy'r awdurdod lleol yn ateb yr anghenion yma ai peidio.

Beth ydy Camdriniaeth

Camdriniaeth ydy pan mae rhywun yn eich anafu chi neu yn eich trin yn wael. Mae llawer o wahanol fathau o gamdriniaeth.

Mae **camdriniaeth** yn gallu bod gan rywun rydych chi'n ei adnabod, fel aelod o'r teulu, ffrind, neu ofalwr.

Neu mae'n gallu bod yn rhywun dieithr.

Mae **camdriniaeth** yn gallu effeithio arnoch chi ar unrhyw oedran. Dydy e ddim yn rhywbeth sy'n digwydd i bobl iau yn unig.

Mae **camdriniaeth** yn gallu digwydd yn unrhyw le, llefydd fel:

- Gartref.

- Mewn cartref gofal.

- Yn yr ysbyty.

- Mewn canolfan ddydd.

- Yng nghartref rhywun arall.

Pa fathau o gamdriniaeth sydd yna

Mae gwahanol fathau o **gamdriniaeth**.

Camdriniaeth corfforol

Camdriniaeth corfforol ydy pan fydd rhywun yn anafu eich corff.

Dyma pryd mae rhywun:

- Yn eich taro chi neu yn eich slapio.
- Yn eich cicio chi.

- Yn eich brathu chi.
- Yn eich llosgi chi.
- Yn eich pinsio chi.

- Yn eich gwthio chi.
- Yn eich dal i lawr.

Camdriniaeth rhywiol

Camdriniaeth rhywiol ydy pan fydd rhywun yn cyflawni gweithred rywiol ar rywun arall sydd heb gytuno iddo.

Dyma pryd mae rhywun yn trio cyffwrdd, cwtsho, cusanu neu gael rhyw gyda chi pan nad ydych chi eisiau hynny.

Camdriniaeth emosiynol

Camdriniaeth emosiynol ydy pan fydd 1 person neu grŵp o bobl yn eich rheoli chi drwy ddefnyddio emosiynau neu deimladau. Efallai eu bod nhw'n codi cywilydd arnoch chi, eich cywilyddio, siarad lawr â chi a'ch beio.

Dyma pryd mae rhywun:

- Yn dweud pethau wrthych chi sy'n gwneud i chi deimlo'n drist.

- Yn dweud y byddan nhw'n gwneud pethau drwg i chi neu rywun rydych chi'n poeni amdanyn nhw.
- Yn gweiddi arnoch chi.

- Yn eich gadael chi allan o weithgareddau.
- Yn eich stopio chi rhag gweld eich teulu a'ch ffrindiau.

Esgeulustod

Esgeulustod ydy pan nad ydy rhywun yn edrych ar eich ôl yn iawn. Math o gamdriniaeth ydy esgeulustod.

Dyma pryd mae rhywun:

- Yn anwybyddu eich anghenion gofal.

- Dim yn rhoi help i chi pan ddylech chi ei gael.



- Dim yn rhoi meddyginiaeth, bwyd na gwres i chi.

Camdriniaeth ariannol

Camdriniaeth ariannol ydy pan mae rhywun yn defnyddio eich arian ac eiddo mewn ffordd nad ydych chi eisiau.

Mae'n meddwl pan fydd rhywun:

- Yn dwyn eich arian.

- Yn gwneud i chi roi arian iddyn nhw.

- Yn dweud wrthych chi beth i wario'ch arian arno.

- Yn eich gorfodi chi i newid eich Ewyllys.

Rheolaeth drwy orfodaeth

Rheolaeth drwy orfodaeth ydy pan mae rhywun yn gwneud i chi wneud pethau maen nhw eisiau i chi eu gwneud drwy:

- Eich anafu chi neu ddweud y byddan nhw'n eich anafu chi
- Yn gweiddi arnoch chi.
- Yn gwneud i chi deimlo'n ofnus.
- Yn gwneud i chi deimlo'n wael amdanoch chi eich hun.

Maen nhw'n gwneud hyn i'ch rheoli chi ac yn gwneud i chi wneud pethau nad ydych chi eisiau eu gwneud.

Beth sy'n rhaid i'ch Awdurdod Lleol ei wneud

Os ydy awdurdod lleol yn credu eich bod yn gallu bod yn **oedolyn mewn perygl**, rhaid iddyn nhw edrych i mewn i bethau i benderfynu beth i'w wneud.

Rhaid i'r awdurdod lleol ddechrau gwneud hyn o fewn 11 diwrnod i ddarganfod eich bod yn gallu bod yn **oedolyn mewn perygl**.

Rhaid i'r awdurdod lleol gofnodi unrhyw beth maen nhw'n ei wneud yn eich **Cynllun Gofal a Chymorth**.

Mae'r Canllawiau Statudol ar Ddiogelu yn gallu dweud mwy wrthych chi am ddylai eich awdurdod lleol edrych amdano pan mae'n cynnal ymchwiliad.

Mae eich Awdurdod Lleol yn gallu penderfynu ateb eich anghenion am ofal a chymorth i'ch amddiffyn rhag cael eich cam-drin a'ch esgeuluso.

Maen nhw'n gallu gwneud hyn hyd yn oed os nad ydych chi yn bodloni'r **Meini Prawf Cymhwysedd Cenedlaethol**.

Rhestr o'r rhesymau sy'n rhaid i chi eu cael i allu cael gofal a chymorth gan eich awdurdod lleol ydy'r **Meini Prawf Cymhwysedd Cenedlaethol**.

Am fwy o wybodaeth, darllenwch Adran 126 o'r Ddeddf a'r Cydweithio i Ddiogelu Pobl Cyfrol 1 – Cyflwyniad a Throsolwg, Tudalen 6.

Gorchmynion Amddiffyn a Chefnogi Oedolion

Mae **Gorchymyn Amddiffyn a Chefnogi Oedolion** yn caniatáu i swyddog yr Awdurdod Lleol siarad â chi yn breifat os ydyn nhw'n credu eich bod yn **oedolyn sydd mewn perygl**.

Fe fyddan nhw'n darganfod a ydych chi'n gallu gwneud penderfyniadau. Nhw fydd yn penderfynu beth sydd angen ei wneud.

Mae'r swyddog yn gallu gwneud cais am **Orchymyn Amddiffyn a Chymorth i Oedolion** er mwyn gadael iddyn nhw fynd i mewn i adeilad.

Mae hwn yn gallu bod yn gartref i chi, yn gartref gofal, yn yr ysbyty, neu'n gartref i rywun arall.

Am fwy o wybodaeth darllenwch Rheoliadau Gorchmynion Diogelu a Chefnogi Oedolion (Swyddog Awdurdodedig) (Cymru) 2015 a'r Cydweithio i Ddiogelu Pobl Cyfrol 1 - Cyflwyniad a Trosolwg, Tudalen 14.

Byrddau Diogelu Oedolion

Mae 6 Bwrdd **Diogelu Oedolion** ar draws Cymru sy'n diogelu oedolion sydd mewn perygl yn eu hardal.

Mae'r Byrddau eisiau stopio pobl sydd angen gofal a chymorth rhag bod mewn perygl o **gamdriniaeth** ac **esgeulustod**.

Am fwy o wybodaeth am Fyrddau Diogelu Oedolion darllenwch:

Rheoliadau Byrddau Diogelu (Cyffredinol) (Cymru) 2015, Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015 a'r Cydweithio i Ddiogelu Pobl Cyfrol 1 - Cyflwyniad a Throsolwg, Tudalen 24.

Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

Mae'r **Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol** yn helpu'r **Byrddau Diogelu Oedolion** i wneud yn siŵr eu bod yn gweithio'n dda.

Maen nhw'n adrodd ar ba mor dda neu ddrwg ydy'r cynlluniau i ddiogelu oedolion (a phlant) yng Nghymru.



Fe fyddan nhw'n dweud wrth Lywodraeth Cymru pa feysydd ddylai wella.

I gael mwy o wybodaeth am **y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol** darllenwch:

- Rheoliadau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (Cymru) (Rhif 2) 2015.

- Cydweithio i Ddiogelu Pobl Cyfrol 1 - Cyflwyniad a Throsolwg, Tudalen 58.

Geiriau anodd

Camdriniaeth

Camdriniaeth ydy pan mae rhywun yn eich anafu chi neu yn eich trin yn wael. Mae llawer o wahanol fathau o gamdriniaeth.

Camdriniaeth emosiynol

Camdriniaeth emosiynol ydy pan mae 1 person neu grŵp o bobl yn trin rhywun mewn ffordd wael.

Camdriniaeth ariannol

Camdriniaeth ariannol ydy pan mae rhywun yn defnyddio eich arian ac eiddo mewn ffordd nad ydych eisiau.

Camdriniaeth corfforol

Camdriniaeth corfforol ydy pan fydd rhywun yn anafu eich corff.

Camdriniaeth rhywiol

Camdriniaeth rhywiol ydy pan fydd rhywun yn cyflawni gweithred rywiol ar rywun arall sydd heb gytuno iddo.

Esgeulustod

Esgeulustod ydy pan nad ydy rhywun yn edrych ar eich ôl yn iawn. Math o gamdriniaeth ydy esgeulustod.

Oedolyn mewn perygl

Oedolyn sydd mewn perygl o niwed ydy person 18 oed neu'n hŷn, sydd:

- yn profi (neu mewn perygl o brofi) camdriniaeth neu esgeulustod ac
- yn methu amddiffyn eu hunain ac
- mae ganddyn nhw anghenion gofal a chymorth.

Does dim ots os ydy'r awdurdod lleol yn ateb yr anghenion yma ai peidio.

Rheolaeth drwy orfodaeth

Rheolaeth drwy orfodaeth ydy pan fydd rhywun yn gwneud i chi wneud pethau maen nhw'n dweud wrthych chi ei wneud wrth:

- eich anafu chi neu ddweud y byddan nhw'n eich anafu chi.
- gweiddi arnoch chi.
- gwneud i chi deimlo'n ofnus.
- gwneud i chi deimlo'n wael amdanoch chi eich hun.